

# PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

9 Mawrth 2016

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd M James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 11.35am]

## 1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb wrth Mrs M Thomas.

## 2. Datgelu buddiannau

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais(ceisiadau) a/neu'r mater(materion) a welir isod:

<b>Cais a Chyfeirnod</b>	<b>Aelod(au)/Swyddog(ion)</b>	<b>Gweithred</b>
<i>Cofnodion 6(a)isod</i> PC/15/0310 - Tir gyferbyn â Castle Hill, Trefdraeth	Mrs G Hayward	Gadael y cyfarfod tra bo'r cais o dan drafodaeth
<i>Cofnodion 6(b)isod</i> PC/15/0548 - Ffarm Monkshill, Llanisian-yn - Rhos	Cyng. P Morgan	Gadael y cyfarfod tra bo'r cais o dan drafodaeth
<i>Cofnodion 6(d)isod</i> PC/16/0040 - Berllan Dawel, Ffordd Cilgwyn, Trefdraeth	Cyng. P Harries	Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio
<i>Cofnodion 6(e)isod</i> PC/15/0647 – Hope and Anchor, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod	Mr A Archer Cyng. M Evans	Gadael y cyfarfod tra bo'r cais o dan drafodaeth
<i>Cofnodion 6(f)isod</i> PC/16/0062 – Hope and Anchor, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod	Mr A Archer Cyng. M Evans	Gadael y cyfarfod tra bo'r cais o dan drafodaeth



*Cofnodion 6(g)isod*  
PC/15/0648 – Hope and  
Anchor, Stryd St Julians,  
Dinbych-y-pysgod

Mr A Archer  
Cyng. M Evans

Gadael y cyfarfod  
tra bo'r cais o dan  
drafodaeth

*Cofnodion 6(h)isod*  
PC/16/0077 – Hope and  
Anchor, Stryd St Julians,  
Dinbych-y-pysgod

Mr A Archer  
Cyng. M Evans

Gadael y cyfarfod  
tra bo'r cais o dan  
drafodaeth

### 3. **Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr a'r 2 Mawrth 2016 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr a'r 2 Mawrth 2016.

**NODWYD.**

### 4. **Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Nodwyd na chafwyd yr un cais i siarad yn y Pwyllgor.

### 5. **Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor o fewn y ddarpariaeth gynllunio ac yn nodi'r rheidrwydd i benderfynu yn unol â threfniadaeth statudol a'r Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi'i fabwysiadu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Pwysleisiwyd bod rhaid anwybyddu ystyriaethau nad oedden nhw'n berthnasol wrth benderfynu materion cynllunio a nodwyd mai eithriad prin iawn oedd ystyriaeth o amgylchiadau personol fel ystyriaeth berthnasol. Tra bo'r Aelodau'n gweithredu'r Deddfau Cynllunio yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd fe fydden nhw hefyd yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel yr oedd yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Roedd hefyd yn bwysig i'r Aelodau ddefnyddio'r cyfarwyddyd a gynhwysid yn y ddogfen Arfer Da o fewn Cynllunio o eiddo'r Awdurdod wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau statudol.

**NODWYD**



## 6. Adroddiadau'r Pennaeth Rheoli Datblygu

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl y Pennaeth Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

*[Datgelodd Mrs G Hayward ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod tra roedd o dan ystyriaeth]*

- (a) CYFEIRNOD: PC/15/0310/LLAWN  
YMGEISYDD: Ms S Gillooley  
CYNNIG: Tyddyn-Eco, yn cynnwys annedd – Datblygiad Un Blaned  
LLEOLIAD: Tir gyferbyn â Castle Hill, Trefdraeth

Atgoffwyd yr Aelodau fod y cyfarfod mis Ionawr o'r Pwyllgor wedi penderfynu gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle. Gwnaed hyn ar 2 Mawrth 2016 a gellir canfod cofnodion y cyfarfod mewn man arall ar yr agenda (*eitem 3 cyfeir*).

Gofynnid am ganiatâd cynllunio ar gyfer tyddyn-eco, wedi'i gyflwyno o dan bolisi 'Datblygiad Un Blaned' (DUB) Llywodraeth Cymru, ac amlinellwyd ei egwyddorion gerbron y Pwyllgor gan y swyddogion. Adroddwyd bod safle'r cais yn cynnwys 2.6 hectar o dir wedi'i leoli ar gyrion de dwyreiniol Trefdraeth, ychydig islaw Mynydd Carningli. Byddai'r tyddyn-eco yn cynnwys annedd newydd, tŷ gwydr, sgubor a llwybrau a llecyn parcio cysylltiedig.

Adroddwyd yn y cyfarfod, yn ychwanegol i'r gwrthwynebiadau y cyfeiriwyd atyn nhw yn y cyfarfod blaenorol, bod llythyr pellach wedi dod i law yn mynegi pryder ynghylch llifogydd lleol yn Caste Hill, am fod dŵr wyneb yn rhedeg oddi ar y tir a nodwyd ar y cynllun ar gyfer coedlan cylchdro byr. Fodd bynnag, cynghorodd swyddogion bod y mater hwn wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli ar gyfer y safle a byddai felly'n cael ei asesu'n flynyddol fel rhan o'r monitro parhaus.

Yn y cyfarfod blaenorol roedd yr Aelodau wedi gofyn am ddarparu eglurhad pellach ynghylch statws Polisi 47 (Datblygiad Effaith Isel) o Gynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod (CDLI) am fod y cais wedi'i asesu yn erbyn meini prawf TAN 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, ac roedd esboniad wedi'i ddarparu yn yr adroddiad a chrynodeb ohono wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod. O ran yr adroddiad a ddarparwyd gan Gynghorydd Amaethyddol yr Awdurdod ac y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod ym mis Ionawr, esboniodd y swyddog ymhellach fod hwn wedi'i gyfyngu i ystyried p'un a oedd y tir yn debyg o gyflenwi anghenion sylfaenol yr ymgeisydd a ph'un a oedd yn gynaliadwy neu beidio, yn



hytrach na'r asesiadau ariannol a gweithredol arferol y gofynnid amdany'n nhw. Roedd yr Ymgynghorydd wedi dod i'r casgliad fod y targedau a osodwyd allan yn y Cynllun Rheoli yn realistig.

Roedd y swyddogion o'r farn fod natur y DUB ar y cyfan yn debyg i dyddyn amaethyddol ond, er hynny, yn atebol i bolisiâu cynllunio a gofynion preswyllo llymach. Roedd yr ymgeisydd wedi delio'n ddigonol â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol trwy ddarparu Cynllun Rheoli manwl, a thra bo pryder wedi'i leisio ynghylch p'un a fedrai'r ymgeisydd wireddu'r Cynllun hwn yn y lleoliad hwn, roedd gofynion DUB yn cynnwys monitro blynyddol, ynghyd â Strategaeth Gadael wedi'i gytuno gyda'r ymgeisydd pe na bai'r DUB yn llwyddiannus. Yng ngoleuni hyn ystyriwyd y gellid cefnogi'r cynnig ac argymhellwyd cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.

Tra roedd nifer o Aelodau'n mynegi eu cefnogaeth i DUB yn gyffredinol, roedden nhw'n pwysleisio fod angen iddo gael ei leoli yn y man iawn, a doedden nhw ddim yn credu mai hwn oedd y man iawn. Nodwyd bod TAN 6 yn nodi na ddylai DUB gael ei leoli mewn ardal o sensitifrwydd tirwedd uchel oni bai bod yna rhesymau lliniarol. Roedd ymweld â'r safle wedi cadarnhau eu barn fod y safle yn un arbennig ac mewn lleoliad sensitif, yn weledol o bron bob rhan o Drefdraeth, wrth edrych ar Garningli o bellter ac wrth ddisgyn oddi ar y mynydd ei hun.

Mynegwyd pryder hefyd ynghylch maint yr annedd a'i lleoliad ar ben uchaf y safle a fyddai'n golygu y byddai rhaid wrth lwybr mynediad hir a'r anhawster cysylltiedig wedyn o gludo deunyddiau adeiladu. Roedden nhw'n pryderu y byddai angen peth wmbreth o waith cynnal a chadw ar feidr o'r fath ac efallai y byddai angen ei choncrito, ac roedd culni lled y llwybr o'i gychwyn wrth y gyffordd yn golygu nad oedd yn hygyrch i gerbydau brys ac roedd hynny'n anfodhaol. Doedd yr un o'r ffactorau hyn mae'n ymddengys yn cynnal egwyddorion cynnaladwyedd.

Doedd Aelodau eraill ddim wedi'u hargyhoeddi ynghylch hyfywedd economaidd y cynllun rheoli a gallu'r ymgeisydd i ddarparu 65% o hunangynhaliath. Mynegwyd amheuaeth ynghylch prisiau defaid, hyfywedd tyfu lafant a chynnyrch eraill, cynhyrchu digon o goed prysgwydd i gynnal ffyrnau llosgi coed a'r tybiaethau ynghylch cynhyrchu mêl. Ymddengys nad oedd y cynllun yn cynnwys cynllun wrth gefn pe bai un o'r elfennau hyn yn aflwyddiannus, ac roedd yr Aelodau hynny oedd â phrofiad o dyddynnod cyffelyb yn pwysleisio nad oedd eu cynnal yn rhwydd nac yn hawdd. Cafodd cynnig yn gwrthod y cais ei roi gerbron felly ac fe gafodd ei eilio.

Wrth ystyried eu rhesymau dros wrthod y cais rhestrowyd nifer o bolisiâu'r CDLI nad oedd yr Aelodau o'r farn fod y cais yn eu bodloni. Daethpwyd i'r



casgliad felly er gwaethaf natur effaith isel y Datblygiad Un Blaned yn gyffredinol, doedd y cynnig hwn ddim yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a byddai'n amharu'n negyddol ar y lleoliad hwn a'r safle a oedd mewn tirwedd hynod sensitif oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol; a byddai'r cynnig - trwy gyflwyno elfen breswyl a gofynion cysylltiol o ran teithio i'r safle ac o'r safle - yn dwysau'r defnydd o'r safle.

Nid ystyriwyd fod y Cynllun Rheoli arfaethedig yn ddigon cadarn i sicrhau y byddai'r safle'n cael ei reoli mewn modd a fyddai'n cadw a chyfoethogi nodweddion arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol, ac roedd hyn yn ddyletswydd statudol i'r Awdurdod ei ddiogelu.

Roedd y cais felly yn groes i TAN 6 para 4.15 - 4.23 a pholisïau CDLI: 1 (a) Dyletswydd; 7 (g) Cefngwlad; 8 (a), (b) ac (c), nodweddion arbennig; 9 (b) llygredd golau; 15 (a), (b), (c) a (d), cadwraeth y Parc Cenedlaethol; 29 (a), (b), (c) a (d) Hygyrchedd; 30 (b), (c) a (d), ymwithio gweledol; 47 (a), (b), (d) ac (f), Datblygiad Effaith Isel 53 (d) Effaith Trafnidiaeth.

Ar ôl gwrando ar y drafodaeth a phwyso a mesur y rhesymau polisi dros wrthod a ddarparwyd, daeth y Cyfarwyddwr Cynllunio i'r casgliad na fyddai gwrthod y cais yn gyfystyr â gwyriad sylweddol oddi ar y polisïau a oedd yn rhan o galon y Cynllun Datblygu ac felly nid oedd yn ofynnol cyflwyno cyfnod oedi'r Awdurdod.

#### **PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

- 1. Nid ystyrir bod y Cynllun Rheoli arfaethedig yn ddigon cadarn i sicrhau y byddai safle'r cais yn cael ei reoli mewn modd a fyddai'n cadw a chyfoethogi nodweddion arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol, yr hwn y mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i'w ddiogelu. Yng ngoleuni hyn, nid yw'r Datblygiad Un Blaned arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r safle, ac fe fyddai'r cynnig - trwy gyflwyno elfen breswyl a gofynion cysylltiol o ran teithio i'r safle ac o'r safle - yn dwysau'r defnydd o'r safle a thrwy hynny'n amharu'n negyddol ar y lleoliad a'r safle oddi fewn i dirwedd hynod sensitif yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r datblygiad felly yn groes i bolisïau Cynllun Datblygu Lleol - 1 - Dyletswydd ac Amcanion y Parc Cenedlaethol (maen prawf a), 7 - Cefngwlad (maen prawf g), 8 - Nodweddion Arbennig (meini prawf a, b ac c), 9 - Llygredd Golau (maen prawf b), 15 - Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (meini prawf a, b, c a d), 29 - Dyluniad Cynaliadwy (meini prawf a, b, c a d), 30 - Mwynder (meini prawf b, c a d), 47 - Datblygiad Effaith Isel (meini prawf a, b, d ac f) a 53 - Effaith Trafnidiaeth (maen prawf d); ac i Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (paragraffau 4.15 hyd 4.23).**



[Datgelodd y Cynghorydd P Morgan fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod pan oedd o dan drafodaeth]

- (b) CYFEIRNOD: PC/15/0548/LLAWN  
YMGEISYDD: Mr P Stoddart  
CYNNIG: Codi sied ar gyfer cadw buchod a lloia, sied cadw gwellt a chladdfa gwywair  
LLEOLIAD: Ffarm Monkshill, Llanisian-yn-Rhos

Adroddwyd bod y cais hwn yn cynnwys sied ar gyfer gwartheg sugno a chadw peiriannau i'w chodi gyferbyn i adeilad gwartheg arall; a chladdfa gwywair wrth ffin ddeheuol yr adeiladau ffarm. Y bwriad oedd codi'r adeilad o baneli concrid gyda byrddau Efrog a llieiniau siment ar y to. Byddai'r adeilad ynghlwm wrth ben deheuol yr adeilad diweddaraf i'w godi ar y safle ac wedi'i rannu'n fewnol ar gyfer storio a chadw gwartheg. Doedd yna ddim annedd breswyl yn gysylltiedig â'r daliad, ac roedd yr ymgeiswyr wedi cynghori fod y garafán sefydlog ar y safle yn cael ei defnyddio at amcanion lles yn unig ac nid oedd yn ffurfio rhan o'r cais presennol.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cynigion oherwydd materion yn ymwneud â draenio. Cafwyd un gwrthwynebiad hefyd wrth eiddo cyfagos ar sail y cynnydd mewn trafniadaeth ar draws y tir, a'r perygl o lygredd o ganlyniad i ddom sych a gwlyb. O ganlyniad i'r gwrthwynebiadau hyn ymgynghorwyd drachefn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Adrannau Iechyd Amgylcheddol a Phriffyrdd Cyngor Sir Penfro; fodd bynnag, doedd yr ymgynghorwyr statudol ddim yn gwrthwynebu'r cynigion.

Doedd y swyddogion ddim yn ystyried bod yr adeilad ffarm a'r gladdfa gwywair yn anghydnaws â'r amgylchedd oddi amgylch, am eu bod wedi'u lleoli'n dda oddi fewn i drefniant adeiladau'r ffarm, ac argymhellwyd cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, cynllun tirweddu a chynllun gwaredu dŵr wyneb.

Esboniodd un Aelod ei fod yn ymwybodol fod yna gwynion niferus wedi bod dros y blynyddoedd ynghylch cyflwr Heol Lindsway o ganlyniad i ddiffyg draenio a'r defnydd o'r ffordd gan beiriannau trwm gan mai'r ffordd honno oedd yr unig fynediad i'r ffarm. Roedd ganddo felly bryder y gallai datblygiad pellach ar y safle waethygu'r sefyllfa ac fe fyddai hynny'n annheg ar drigolion Heol Lindsway. Awgrymodd y dylai'r amod draenio gynnwys gwelliannau priodol i gael eu gwneud cyn dechrau'r datblygiad.



Nododd Aelod arall y byddai'r safle'n weledol iawn oddi ar Lwybr yr Arfordir a gofynnodd am dirweddu ychwanegol trwy greu bancyn wedi'i blannu. Gofynnwyd hefyd am osod rheoliad goleuo.

Roedd yna drafodaeth ynghylch sut y gellid addasu'r amodau draenio a thirweddu er mwyn cyflawni hyn a chafodd y cais ei gynnig a'i eilio ar y sail hynny.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, goleuo, priffyrdd, tirweddu a gwaredu dŵr wyneb, a hynny i'w gyflawni cyn dechrau ar y datblygiad.**

- (c) CYFEIRNOD: PC/15/0689/LLAWN  
YMGEISYDD: Mr a Mrs P McGrath  
CYNNIG: Dymchwel cyntedd gwydrog presennol ac ystafell fwyta a chodi yn eu lle estyniad un llawr yn y cefn ynghyd â newidiadau i'r dormer cefn yn ogystal â newidiadau i'r ffenestri a gwaith allanol cysylltiol.  
LLEOLIAD: Nant-y-Rhedyn, Feidir Felin, Trefdraeth

Adroddwyd bod yr annedd yn eiddo ar wahân deulawr gydag ystafell haul wydrog fawr yn y cefn a oedd yn ffurfio'r prif gyntedd mynediad a'r ystafell fwyta; to dormer gwastad mawr hefyd yn y cefn. Roedd y cais presennol yn gofyn am ddymchwel y cyntedd gwydrog a'r ystafell fwyta bresennol a chodi yn eu lle estyniad cefn un llawr newydd ynghyd â newidiadau i'r dormer cefn, yn ogystal â newidiadau i'r ffenestri a gwaith allanol cysylltiol.

Roedd swyddogion o'r farn y byddai'r estyniad a'r newidiadau arfaethedig i do'r dormer cefn yn gwella golwg weledol yr eiddo yn ei gyfanrwydd. Tra byddai ei olwg yn fodern roedd gosodiad, maint, ffurf a dyluniad yr estyniad newydd yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer y safle ac roedd yn cynnwys deunyddiau cynaliadwy. Roedd y dyluniad modern yn cael ei ystyried yn ddealladwy yn erbyn y waliau cerrig a tho llechi'r prif eiddo ac nid oedd yn achosi effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad y dirwedd oddi amgylch.

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod Cyngor Tref Trefdraeth wedi argymhell gwrthod am eu bod o'r farn nad oedd y dyluniad, golwg na'r deunyddiau'n briodol ar gyfer y lleoliad, yn groes i argymhelliad y swyddogion. Serch y pryderon hyn roedd y swyddogion yn ystyried bod y cynnig cyfredol yn dderbyniol a'r argymhelliad oedd cymeradwyo, yn amodol ar osod amodau cynllunio priodol.



Roedd yr Aelodau'n rhanedig o ran eu barn am ddyluniad modern yr estyniad gyda rhai'n credu ei fod yn welliant i'r annedd ac eraill yn credu bod yr ychwanegiad i'r hyn a oedd yn fwthyn traddodiadol yn ddolur i'r llygaid a bod angen ail-feddwl yn ei gylch. Gofynnodd un Aelod p'un a fyddai angen tirweddu ychwanegol ond atebodd y swyddogion bod y safle eisoes wedi'i dirweddu'n dda gyda swm sylweddol o blannu aeddfed, fodd bynnag byddai amod yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ganiatâd i ddiogelu'r coed presennol.

Cafodd argymhelliad y swyddogion ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, diogelu coed a chloddiau, tirweddu a draenio dŵr wyneb.**

- (d) CYFEIRNOD: PC/16/0040/LLAWN  
YMGEISYDD: Mr D Lewis  
CYNNIG: Codi adeilad gardd  
LLEOLIAD: Berllan Dawel, Ffordd Cilgwyn, Cilgwyn, Trefdraeth

Mae'r datblygiad hwn yn cynnig adeilad un llawr wedi'i gladio â phren ac iddo godiad to isel iawn, yn gorwedd ar hyd ffin dde orllewinol y safle, islaw lefel y ffordd gyda chlawdd a bancyn yn ei amgylchynu. Roedd y cais yn cynnig gwaredu'r amlwyth storio presennol ar y tir gyferbyn fel modd o wella'r safle a chafodd amod i'r perwyl hwnnw ei gynnwys. Byddai'r adeilad arfaethedig o ran ei olwg yn debyg i gerbyd trên a byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer storio domestig ac fel ystafell ardd.

Cyflwynwyd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd gwrthwynebiad gan Gyngor Tref Trefdraeth.

Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd maint na dyluniad yr adeilad yn groes i gymeriad y llecyn oddi amgylch ac na fyddai'r cynnig yn achosi niwed i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Yn hytrach, byddai yna welliant bychan i'r safle. Roedd y cyfnod cyhoeddusrwydd ar gyfer y cais nawr wedi dirwyn i ben ac felly argymhellwyd cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, cynllun tirweddu, goleuo, defnydd yn gysylltiedig â'r annedd a gwaredu'r amlwyth presennol.**

*[Datgelodd y Cynghorydd M Evans a Mr A Archer fuddiant yn y pedwar cais canlynol a gadawodd y ddau'r cyfarfod tra roedd y ceisiadau o dan ystyriaeth.]*





- (e) CYFEIRNOD: PC/15/0647/CARh  
YMGEISYDD: Meistri J ac M Rossiter ac Evans  
CYNNIG: Newidiadau mewnol i adeilad rhestredig, dymchwel cegin gefn fodern bresennol ynghyd ag estyniadau a gosod cegin newydd, toiledau a threfniant grisiau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf  
LLEOLIAD: Hope and Anchor Inn, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod. Gofynnwyd i'r Pwyllgor i ddilysu'r penderfyniad a wnaed gan y swyddogion mewn amryfusedd heb weithredu'r cynllun dirprwyo arferol.

Adroddwyd bod yr Hope and Anchor yn dafarn tri llawr rhestredig Gradd II, yn wynebu'r stryd gyda gardd gwrw ar yr ochr, a thu ôl iddo roedd estyniadau ugeinfed ganrif un llawr.

Gofynnid am ganiatâd adeilad rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol, dymchwel cegin gefn bresennol ac estyniad a chodi cegin newydd, toiledau a threfniant grisiau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd ystyriaeth o'r gwaith cysylltiedig roedd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedi'i gynnwys fel rhan o gais cynllunio PC/15/0648 (*Cofnod 6(g) cyfeir*).

Roedd y swyddogion yn ystyried bod y cynllun yn cydweddu â chymeriad yr adeilad rhestredig a'i osodiad o ran dyluniad a ffurf. O'r herwydd gellid cefnogi'r cais gydag amodau.

Roedd yr Aelodau'n cymeradwyo'r gwelliannau ac o'r farn fod y cynlluniau'n atyniadol a'r dyluniad yn sensitif mewn llecyn oedd yng nghalon Ardal Gadwraeth.

**PENDERFYNIAD: Y penderfyniad i roi caniatâd adeilad rhestredig dyddiedig 05/01/16 a oedd yn cynnwys amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, lliniaru amgylchedd hanesyddol a chytundeb ynghylch manylion pellach ffenestri/siliau a drysau, i'w dilysu.**

- (f) CYFEIRNOD: PC/16/0062/CARh  
YMGEISYDD: Meistri J ac M Rossiter ac Evans  
CYNNIG: Newidiadau i ganiatâd adeilad rhestredig PC/15/0647 i osod ffenestri newydd, drws, dihangfa dân ar y piniwn.  
LLEOLIAD: Hope and Anchor Inn, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod



Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod.

Adroddwyd bod yr Hope and Anchor yn dafarn tri llawr rhestredig Gradd II yn wynebu'r stryd gyda gardd gwrw ar yr ochr, a thu ôl iddo roedd estyniadau ugeinfed ganrif un llawr.

Gofynnid am ganiatâd adeilad rhestredig i osod dwy ffenestr godi ynghyd â grisiau dianc rhag tân a drws ar y trychiad talcen. Roedd ystyriaeth o'r gwaith oddi fewn i'r cynllun oedd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedi'i gynnwys oddi fewn i ganiatâd cynllunio PC/16/0077 (*Cofnod 6(h) cyfeir*).

Roedd y swyddogion o'r farn fod y cynllun arfaethedig yn cydweddu â chymeriad yr adeilad rhestredig a'i leoliad o ran dyluniad a ffurf. O'r herwydd gellid cefnogi'r cais gydag amodau.

**PENDERFYNIAD: Rhoi caniatâd adeilad rhestredig gydag amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau, lliniaru amgylchedd hanesyddol a chytundeb pellach ynghylch ffenestri/siliau a drysau.**

- (g) CYFEIRNOD: PC/15/0648/LLAWN  
YMGEISYDD: Meistri J ac M Rossiter ac Evans  
CYNNIG: Newidiadau mewnol i adeilad rhestredig, dymchwel cegin gefn fodern bresennol ynghyd ag estyniadau a gosod cegin newydd, toiledau a threfniant grisiau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf  
LLEOLIAD: Hope and Anchor Inn, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod. Gofynnwyd i'r Pwyllgor i ddilysu'r penderfyniad a wnaed gan y swyddogion mewn amryfusedd heb weithredu'r cynllun dirprwyo arferol.

Adroddwyd bod yr Hope and Anchor yn dafarn tri llawr rhestredig Gradd II, yn wynebu'r stryd gyda gardd gwrw ar yr ochr, a thu ôl iddo roedd estyniadau ugeinfed ganrif un llawr.

Gofynnid am ganiatâd cynllunio i ddymchwel cegin gefn bresennol ac estyniad a chodi cegin newydd, toiledau a threfniant grisiau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd ystyriaeth o'r gwaith cysylltiedig roedd



angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedi'i gynnwys fel rhan o gais cynllunio PC/15/0647 (*Cofnod 6(g) cyfeir*).

Roedd y swyddogion o'r farn fod y cynllun arfaethedig yn dderbyniol o ran y polisïau perthnasol fel roedden nhw wedi'u gosod allan yn y Cynllun Datblygu Lleol. Ystyriwyd hefyd ei fod yn gydnaws â chymeriad yr adeilad rhestredig a'i osodiad o ran dyluniad a ffurf. O'r herwydd gellid cefnogi'r cynllun gydag amodau.

**PENDERFYNIAD: Dilysu'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio dyddiedig 05/01/16 oedd yn cynnwys amodau'n ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a chytundeb pellach ynghylch ffenestri/siliau a drwsau.**

- (h) CYFEIRNOD: PC/16/0077/NMA  
YMGEISYDD: Meistri J ac M Rossiter ac Evans  
CYNNIG: Cynigion yn lle'r cynigion gwreiddiol ar gyfer allanfa dân gyda'r cynigion newydd yn cynnwys grisïau tro ym mhen piniwn wal yr adeilad presennol, wedi'i beintio i gydweddu â'r piniwn ynghyd â drws allanfa dân newydd yn y pen piniwn ar lefel y llawr cyntaf ar ben y grisïau. Hefyd dwy ffenestr newydd yn y pen piniwn ar y llawr cyntaf a'r ail llawr i gydweddu â'r ffenestr ar y llawr gwaelod a ganiatawyd yng ngheisiadau gwreiddiol PC/15/0648  
LLEOLIAD: Hope and Anchor Inn, Stryd St Julians, Dinbych-y-pysgod

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod.

Adroddwyd bod yr Hope and Anchor yn dafarn tri llawr rhestredig Gradd II, yn wynebu'r stryd gyda gardd gwrw ar yr ochr, a thu ôl iddo roedd estyniadau ugeinfed ganrif un llawr.

Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi i'r eiddo (APC/15/0648 *Cofnod 6g cyfeir*) ar gyfer dymchwel y gegin gefn fodern gyfredol a'r estyniad a chodi yn eu lle gegin newydd, toiledau a threfniant grisïau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd hwn yn cynnwys gosod ffenestr godi ar y talcen (llawr gwaelod). Roedd y cynnig hwn ar gyfer mân ddiwygiad i'r cynllun oedd wedi'i gymeradwyo, a oedd yn cynnwys gosod dwy ffenestr godi, grisïau tro metel fel dihangfa dân, a drws tân ar ben y grisïau. Gofynnwyd am ganiatâd adeilad rhestredig o dan PC/16/0062 (*Cofnod 6(f) cyfeir*).

Roedd Cymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod wedi gofyn am osod manylion Fictoraidd ar yr allanfa dân ond roedd y swyddogion o'r farn y



byddai cadw athroniaeth dylunio'r grisiau mor syml â phosib o ran manylder yn lleihau ei effaith gweledol.

## **PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais.**

### **7. Apeliadau**

Adroddodd y Pennaeth Rheoli Datblygu ynghylch pedwar o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a manylodd ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran y broses apêl ymhob achos.

## **NODWYD.**

### **8. Materion Cynllunio Eraill**

#### **a) Penderfyniad Apêl ar gyfer tir y tu fas i'r Parc Cenedlaethol - Tir i'r De o Valero ac i'r Dwyrain o Roscrowdder, Heol y Burfa, Hundleton, Penfro**

Esboniodd y Cyfarwyddwr Cynllunio bod y penderfyniad apêl hwn yn ymwneud â thir y tu fas i'r Parc Cenedlaethol er mwyn codi a gweithredu pump twrbein gwynt ynghyd â datblygiad cysylltiol, ac roedd wedi'i wrthod. Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r apêl ar sail tirweddu, a thynnwyd sylw'r Aelodau at baragraffau 114 a 120 o'r penderfyniad lle'r oedd yr Arolygwr yn rhoi ystyriaeth i amcanion y Parc Cenedlaethol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr hyn roedden nhw wedi'i gyflwyno ynghylch yr hyn roedden nhw'n ei ystyried oedd yn ganlyniad cymeradwy ond nodwyd y gellid dosbarthu penderfyniadau cyffelyb yn y dyfodol trwy e-bost er mwyn arbed papur.

## **NODWYD.**

#### **b) Cyfarwyddiadau Rhanguddio ar gyfer Ffarm Trewern – PC/15/0417**

Adroddwyd bod dau lythyr wedi dod i law wrth Lywodraeth Cymru fel gwybodaeth bellach mewn perthynas â datblygiad un cais cyfredol ac un cais arfaethedig ar Ffarm Trewern, Trefdraeth.

Yn dilyn rhyddhau barn Rhanguddio yn ymwneud â'r angen i geisiadau gynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol gan swyddogion yr Awdurdod hwn, roedd asiant yr ymgeisydd wedi gofyn am Gyfarwyddiadau Rhanguddio ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ac roedden nhw wedi'u hatodi wrth yr adroddiad ac yn cadarnhau safbwynt yr Awdurdod.

Adroddwyd bod y cais i bob pwrpas wedi'i oedi ar ôl cyhoeddi Cyfarwyddyd Rhanguddio cadarnhaol nes bod y Datganiad Amgylcheddol



yn dod i law. Roedd yna gyfnod o un wythnos ar bymtheg ar gyfer penderfynu wedyn a byddai'r cais felly yn cael ei gyflwyno drachefn gerbron y Pwyllgor maes o law.

**NODWYD.**

